# SL(5)703 – Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol a chywiriadau i is-ddeddfwriaeth ddomestig ymadael â'r UE sy'n ymwneud â hadau, planhigion i'w plannu a deunyddiau atgenhedlu o ganlyniad i ymadael â'r UE. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cadarnhau nad yw'r Rheoliadau'n gwneud unrhyw newidiadau polisi.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 30 Rhagfyr 2020 (rheoliadau 1, 3 a 5) ac yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (rheoliadau 2 a 4).

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 4(3)(j)(iv) o'r rheoliadau pwnc yn rhoi rheoliad newydd yn lle rheoliad 4(13)(f) o Reoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, sy'n diwygio paragraff 10 o Atodlen 4 i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012").

Mae paragraff 10 o Atodlen 4 i Reoliadau 2012 yn ymwneud â marchnata amrywogaethau anrhestredig o hadau llysiau ac, fel y'i diwygiwyd, mae'n darparu yn is-baragraff (1) y caiff Gweinidogion Cymru, at y diben o gasglu gwybodaeth a chael profiad ymarferol yn ystod y

cyfnod tyfu, awdurdodi marchnata hadau llysiau nad ydynt wedi'u rhestru ar restr amrywogaethau Prydain Fawr, ar yr amod bod cais i'w cofnodi yn Rhestr Genedlaethol y Deyrnas Unedig neu Restr Amrywogaethau Gogledd Iwerddon wedi cael ei gyflwyno.

Mae is-baragraff (4) o’r paragraff hwnnw, fel y’i diwygiwyd, yn darparu na chaiff neb ofyn am awdurdodiad ac eithrio'r person a gyflwynodd gais am gofnodi'r amrywogaethau dan sylw yn Rhestr Genedlaethol y Deyrnas Unedig, Rhestr Amrywogaethau Gogledd Iwerddon neu restr gywerth mewn gwlad y caniatawyd cywerthedd iddi.

Nid yw’n amlwg ar unwaith pam y caiff person sy’n cyflwyno cais am gofnodi ar restr gywerth ofyn am awdurdodiad gan Weinidogion Cymru yn yr amgylchiadau hyn, o ystyried mai amod ar gyfer yr awdurdodiad hwnnw yw bod cais wedi’i gyflwyno i Restr y Deyrnas Unedig neu Restr Gogledd Iwerddon (ac nid rhestr gywerth).

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**19 Ionawr 2021**